

Cronfa Cymunedau HBO / HBO Communities Fund (English below)

Canllawiau

1. Beth yw'r Gronfa Cymunedau HBO?

Mae HBO wedi rhoi rhodd caredig o £73,000 i gymunedau lleol lle bu iddynt ffilmio eu cynhyrchiad cyfres deledu 'House of the Dragon' yn ystod haf 2023.

Mae Cronfa Cymunedau HBO yn gyllid cyfalaf a refeniw. Prif nod y grant ydy cefnogi prosiectau a fydd yn gwella ansawdd bywyd trigolion, grwpiau a chymunedau yn Llanberis, Dinorwig, Pen-draw a Deiniolen.

Mae Cyngor Cymuned Llanberis wedi cytuno i dderbyn £36,500 ac mae Penra Pwyllgor Deiniolen wedi cytuno ar y £36,500 arall o'r rhodd ariannol o ganlyniad i'r gwaith ffilmio yn Chwarel Dinorwig.

2. Pa lefel o grant fydd yn cael ei roi?

Mae dau lefel o grant ar gael. Caiff ceisiadau unigol ar gyfer grant bychan hyd at £2,500 eu gwahodd. Mae grantiau gwerth mwy na £2,500 hefyd ar gael.

Caiff grwpiau sydd wedi derbyn grant o'r gronfa hon yn y gorffennol ail ymgeisio, ond mae'n rhaid i ofynion monitro'r grant gwreiddiol fod wedi eu cwblhau. Mae'n rhaid iddo hefyd fod yn brosiect newydd sy'n sefyll ar wahân i'r prosiect cynt, neu'n rhan o brosiect graddol wedi'i gynllunio.

3. Pa fath o brosiectau allai'r Gronfa hon eu cefnogi?

Bydd grantiau yn cael eu rhoi i brosiectau sydd o fudd i gymunedau lleol.

4. Pwy all geisio am gyllid?

Gall grwpiau cymunedol a chanddynt brosiect sy'n darparu ar gyfer trigolion Llanberis, Dinorwig, Pen Draw ac/neu Deiniolen wneud cais am gymorth trwy'r Gronfa Cymunedau HBO.

5. Mae'n hollbwysig eich bod yn bodloni'r meini prawf a ganlyn cyn ceisio am gyllid trwy'r gronfa hon:

- Rhaid i chi fod yn sefydliad yn y gymuned neu'n sefydliad gwirfoddol, wedi'i leoli yn neu'n weithredol o fewn, Llanberis, Dinorwig, Pendraw ac / neu ardal Deiniolen;
- Ni all eich sefydliad ddsbarthu elw;
- Rhaid i'ch sefydliad fod â fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiadol;
- Rhaid i'ch sefydliad fod â strwythur rheoli clir;
- Rhaid i'ch sefydliad fod â system rheolaeth ariannol glir;
- Rhaid i'ch sefydliad gael egwyddorion gweithredol sy'n cadw at ddeddfwriaeth ar gyflogaeth, iechyd a diogelwch, cydraddoldeb i weithwyr a gwirfoddolwyr ac amddiffyn plant ac oedolion bregus;
- Dangos dealltwriaeth ac ymroddiad i gydraddoldeb yng nghyswllt mynediad, iaith, diwylliant, rhyw a materion ethnig;
- Meddu ar nodau ac amcanion sy'n cydymffurfio â'r gweithgareddau gaiff eu hariannu trwy'r grant hwn;
- Rhaid dangos bod grwpiau ac unigolion eraill yn yr ardal yn cefnogi'r gweithgaredd/cynllun;

- Os ydych yn gwneud cais am lai na £5,000, bydd angen i chi ddarparu un dyfynbris ysgrifenedig ar gyfer y gwaith, os ydych yn gwneud cais am £5,000 neu fwy, bydd angen i chi ddarparu tri dyfynbris ysgrifenedig;
- Os mai hyrwyddo crefydd yw prif nod eich grŵp byddwch angen profi bod yr hyn mae'r grant yn ei gefnogi ar gael i'r gymuned gyfan.
- Gall unigolion ymgeisio ond rhaid gwneud hynny drwy grŵp cymunedol cyfansoddiadol.

5. Sut i wneud cais am arian?

Gallwch wneud cais am arian gan Gronfa Cymuned HBO drwy gwblhau'r ffurflen gais briodol. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y nodiadau yn ofalus ac yn sicrhau bod eich prosiect yn ymateb i'r canllawiau a'r meini prawf.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â

*Clerc Cyngor Llanberis
3 Maes Padarn, Llanberis,
Gwynedd LL55 4TE*

*clerc@cyngorllanberis.cymru
Ffôn / Tel. 07867 982518*

6. Pryd ddylid cyflwyno ffurflen gais?

Dylech sicrhau bod y ffurflen gais wedi ei chwblhau a'r holl ddogfennau cefnogol wedi eu paratoi'n gywir.

Rydym yn hapus i dderbyn ceisiadau ar unrhyw adeg, ac anelwn i brosesu'r ceisiadau hyn o fewn 4 wythnos waith, yn amodol ar y cyllid sydd ar gael.

Guidelines

1. What is the HBO Communities Fund?

HBO have made a kind donation of £73,000 to local communities where they filmed their 'House of the Dragon' production TV series during summer 2023.

The HBO Communities Fund is a capital and revenue fund. The main aim of the grant is to support projects that will improve the quality of life of residents, groups and communities in Llanberis, Dinorwig, Pen-draw and Deiniolen.

Llanberis Community Council has agreed to receive £36,500 and Pentra Pwyllgor Deiniolen has agreed to receive the other £36,500 of the financial donation as a result of the filming work at Dinorwig Quarry.

2. What level of grant can be awarded?

There are two levels of grant available. Individual applications for the small grant of up to £2,500 are invited. Larger grants worth more than £2,500 are also available.

Groups that have previously received a grant from this fund may re-apply once all the monitoring requirements of the original grant have been completed, if it is a new project that stands alone from the previous project or as part of a planned phased project.

3. What type of projects could this Fund support?

Grants will be given to projects that benefit local communities.

4. Who can apply for funding?

Community groups with a project which provides for Llanberis Dinorwig, Pen Draw and/or Deiniolen residents may apply for support through the HBO Communities Fund.

5. It is important that you meet the following criteria before applying for support through this fund:

- *Your organisation must be a community or voluntary organisation located within, or operating within, Llanberis, Dinorwig, Pen Draw and/or Deiniolen area;*
- *Your organisation cannot distribute profit;*
- *Your organisation must have a legal and constitutional framework;*
- *Your organisation must have a clear management structure;*
- *Your organisation must have clear financial management systems;*
- *Your organisation must have operational principles which adhere to legislation on employment, health and safety, equality for workers and volunteers and protecting vulnerable adults and children;*
- *Show an understanding and commitment to equality in respect of access, language, culture, gender and ethnicity;*
- *Possess aims and objectives that accord with the activities financed through this grant;*
- *Show that other groups and individuals in the area support the activity/scheme;*
- *If you apply for less than £5,000, you will need to provide one written quote for the work, if you apply for £5,000 or more, you will need to provide three written quotes;*
- *If promoting religion is your group's main aim you will need to prove that what the grant is supporting is available to the whole community.*
- *Individuals can apply but they must do so via a constituted community group.*

5. How to apply for funding?

You may apply for funding from the HBO Community Fund by completing the appropriate application form. It is important that you follow the notes carefully and ensure that your project responds to the guidelines and criteria.

For any enquiries please contact:

Council Clerk

Llanberis Council

3 Maes Padarn, Llanberis,

Gwynedd LL55 4TE

clerc@cyngorllanberis.cymru

Tel. 07867 982518

6. When should an application be submitted?

You should ensure that the application form has been completed and all the essential supporting documents are correctly prepared.

We are happy to receive application at any time and we aim to process such applications within 4 working weeks, subject to available funding.